# Canolbwyntio ar: Anghenion Dysgu Ychwanegol; setlo mewn

**Mae'n bwysig fod pob plentyn yn cael cyfle i gael gofal a hefyd y sicrwydd fod yr holl fesurau posibl yn cael eu gweithredu i gynnal diogelwch a llesiant plant, rhieni, gofalwyr a staff.**

I lawer o blant, bydd y lleoliad gofal plant y maen nhw'n mynd yn ôl iddo yn edrych ac yn teimlo'n wahanol iawn, a gallai fod yn anodd i blant wahanu oddi wrth rieni a gofalwyr ar ôl treulio cymaint o amser adref yn y cyfnod clo. Efallai y bydd plant a rheini neu ofalwyr yn bryderus ynghylch cadw pellter cymdeithasol a sut y gellir gwneud hynny, yn enwedig pan fod gan blant anghenion ychwanegol. Bydd yn bwysig reoli disgwyliadau rhieni a gofalwyr a dod i ddeall efallai na fydd yn bosibl pob amser cynnig yr un ddarpariaeth gofal â chyn COVID-19. Dylid gwneud pob ymdrech i ddarparu'r gofal plant gorau yn yr hinsawdd presennol.
Mae'n bwysig cael cynllun sy'n hyblyg ac sy'n ymateb i anghenion y plentyn a'r lleoliad. Mae rheoli a chynnal gofal plant mewn pandemig yn brofiad newydd i bob un ohonom ac felly, bydd teimladau o ansicrwydd a phryder yn codi ond yr allwedd yw cael trafodaeth agored gyda rhieni a gofalwyr **cyn** i'r plentyn fynychu a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio.



## Dyma rai o bethau i'w hystyried:

### Beth yw anghenion penodol y plentyn?

- Beth yw'r prif heriau wrth geisio cyfarfod ag anghenion y plentyn hwn?
- A oes angen gweithredu unrhyw fesurau o ran yr adeiladau ac oes yna unrhyw broblemau diogelwch ychwanegol y dylid cael asesiad risg ar eu cyfer?
- Oes gan y plentyn unrhyw anghenion synhwyraidd ac ydyn nhw'n nhw'n debyg o roi rhai pethau yn eu ceg? Efallai bydd yn bosibl defnyddio bocs o deganau / eitemau sy'n ddiogel, i'r plentyn hwnnw'n unig. Gallai hynny fod yn rhan o'r cynllunio wrth ystyried y cyfnod setlo.
- Efallai y byddai hynny hefyd yn helpu gyda'r trosglwyddiad os yw'r staff yn gyfarwydd â'r pethau y mae'r plentyn yn wirioneddol eu hoffi e.e. trenau ei hunan, ceir, byddai hynny o gymorth i liniaru eu pryder.

### A fydd y trosglwyddiad o adref i'r lleoliad yn anodd iawn?

- Mae trosglwyddo'n gam enfawr i rai plant a rhieni, felly, a yw'r rhieni'n gallu helpu gyda gwybodaeth ynglŷn â sut mae'u plentyn yn ymdopi â newid?
- A yw'r rhieni angen cefnogaeth ychwanegol i ennill hyder - efallai eu bod yn bryderus iawn am adael eu plentyn?
- A yw'r plentyn yn bryderus iawn? Os felly, pa strategaethau ellid eu defnyddio i dawelu'r plentyn er mwyn lleddfu cymaint â phosibl ar ei bryder?
- Beth fydd ymateb y plentyn i gael ei wahanu oddi wrth ei rh / rieni yn y lleoliad? Sut fydd staff a'r rhieni'n ymdopi â hyn?
- Bydd ffactorau ychwanegol (COVID-19) yn golygu y bydd setlo yn y lleoliad yn wahanol i'r arfer. A fydddai'n bosibl i'r rhieni a'r plentyn ymweld â'r lleoliad 'allan o oriau' i helpu'r trosglwyddo?
- A fyddai lluniau / fideos o'r gwahanol fannau y bydd y plentyn yn mynd iddyn nhw yn y lleoliad o help i baratoi ar gyfer y trosglwyddiad a hefyd llun o'r gweithiwr allweddol y bydd y plentyn yn ei g/chwmni?

### A yw'r plentyn yn dangos unrhyw ymddygiad sy'n cynyddu'r perygl o rannu hylifau corfforol gyda'r staff neu'r plant: e.e. poeri, brathu a dwbio, yn enwedig wrth newid clwt/cewyn?

Weithiau, pan mae plant yn bryderus, rydym yn deall y gallai'u hymddygiad newid.

- Rhaid ystyried pob un ymddygiad sydd wedi'i rhestru isod,
- Beth am y posibilrwydd y bydd plentyn yn gwrthod cael ei ch/glwt /cewyn wedi'i newid ac yn gwneud y corff yn dynn rhag cael ei godi, neu'n taflu ei hunan yn ôl yn annisgwyl - a yw hynny'n rhywbeth y mae'r plentyn yn ei wneud?
- A oes angen rhagor o Offer Amddiffyn Personol (PPE) megis misyrnau tryloyw yn hytrach na mygydau?

### A yw' plentyn yn ei chael yn anodd, neu'n methu, cadw at drefn?

- Pa lefel o ddealltwriaeth sydd gan y plentyn?
- Oes angen galw'r plentyn wrth ei h/enw cyn bod y plentyn yn sylweddoli fod rhywun yn ceisio tynnu ei sylw?
- A yw'r plentyn yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol ar lafar a / neu frawddegau?
- Oes angen pethau i'w annog, megis eitem weledol neu ffotograff, cyn bod y plentyn yn deall beth i'w wneud? Er enghraifft, efallai y byddai plentyn nad yw'n siarad yn cymryd ciw o weld llun / neu bêl wirioneddol i ddeall bod eisiau symud o ofod tu fewn i'r tu allan. Os oes angen symud y plentyn i fan arall yn y lleoliad, beth yw'r ffordd orau o wneud hynny?
- A yw'r plentyn yn cael trafferth gyda'r cysyniad o amser, mae munud i blentyn yn gallu ymddangos yn amser hir?
- A yw'r plentyn yn debyg o ddynwared beth mae'r plant eraill yn ei wneud neu a yw'n debyg o aros yn ei amser a'i ofod ei hunan?

### A fydd yn anodd i'r plentyn gadw pellter cymdeithasol neu a fydd yn cynyddu pryder neu stres?

Mae rhai plant yn chwarae ar eu pen eu hunain heb lawer o awydd ymuno â phlant eraill, felly fe fydden nhw'n chwarae gyda phethau ar eu pen eu hunain.

- Os bydd y plentyn yn gweld tegan y mae ei eisiau gan blentyn arall a fydd yn ei gymryd oddi ar y plentyn hwnnw?

### Beth yw'r risgiau i'r gweithiwr allweddol?

Mae ymddygiad a chyfathrebu'n allweddol i'r maes hwn, ac mae pob plentyn yn wahanol. Bydd angen defnyddio rhai offer amddiffyn personol yn enwedig wrth fynd i'r toiled, newid clwt/cewyn a chlirio unrhyw hylifau'r corff sydd ar ôl:
Canllawiau Atal a Rheoli Haint ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant1

- Mae cadw lefelau eithriadol o hylendid yn allweddol i holl weithwyr gofal plant
- Rhaid cael lle i allu ynysu plentyn os yw'n mynd yn sâl
- Sicrhau fod staff yn aros gyda'r un criw o blant wrth weithio yn eu swigen
- Cadw at niferoedd llai.

## A fydd mwy o olchi dwylo'n anodd ei reoli i'r plentyn hwn?

- A yw'r plentyn yn mwynhau golchi dwylo neu a oes broblem synhwyrol ynglŷn â dŵr / cyffwrdd ayb?
- A fydd y plentyn angen cefnogaeth gyda hyn, neu a fydd yn gallu gwneud hynny ar ei ben ei hun?
- Meddyliwch am ganeuon neu gemau sy'n gallu cyd-fynd â golchi dwylo

## A yw'r plentyn hwn angen ei hafan ddiogel ei hunan yn y lleoliad?

- Sut mae neu fydd y plentyn yn ymdopi â lefelau sŵn yn y lleoliad?
- A fydd y plentyn angen gofod ei hunain ar adegau h.y. efallai ddewis cornel dawel neu rywle heb blant eraill er mwyn helpu i'w dawelu ac i reoli'i hunan pan fydd pethau'n dechrau mynd yn drech?

## Ydych chi angen cynyddu amser mynychu'n raddol?

Efallai y bydd angen cynllunio cyfnodau mynychu byrrach ond dros amser hirach er mwyn i'r plentyn 'setlo i mewn' a'r deall y bydd rhiant neu ofalwr yn dod yn ôl. Mae hyn yn rhywbeth y byddem fel arfer yn ei deilwra yn ôl anghenion y plentyn, ond bydd yn anos gan na fydd y rhiant wrth law a bydd angen cael man 'cyflwyno'n ôl'.

- A fyddai'n bosibl gofyn i'r rhiant neu'r gofalwr aros gerllaw, oddi ar yr eiddo, yn ystod cyfnodau mynychu byr ar y dechrau er mwyn gallu eu galw'n ôl yn gyflym os bydd unrhyw broblemau setlo i mewn?

## A fyddai fideo neu luniau'n helpu gyda throsglwyddiad?

- Pa gymhorthion gweledol allai helpu'r plentyn i ddeall trosglwyddiad yn well?
- Ystyriwch bob amser beth allai digwydd mewn 'dril tân' neu larwm dân sydyn, mae rhai plant yn ymateb yn ddrwg i rai lefelau o sŵn yn enwedig os nad ydynt wedi'u paratoi.





### Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd yn:

***small*talk** (gwanwyn 2019) – Y broblem o Anghenion Dysgu Ychwanegol; trawsnewid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau i blant. Newid clytiau ac Offer Amddiffyn Personol (PPE), smalltalk, (hydref 2019), tudalen 18 – 19

**Gweler hefyd:**

Pecyn Polisïau a Gweithdrefnau Blynyddoedd Cynnar Cymru: Polisi Rhif 8: Cydraddoldeb a chynhwysedd (gan gynnwys anghenion addysgol ychwanegol / arbennig). I archebu copi, ffoniwch: 029 2045 1242 neu ymweld â: https://www.earlyyears.wales/en/shop

## Cyfeiriadau:


[1] https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/accordians/docs/infection-prevention-and-control-guidance-2019-for-childcare-settings-0-5-years-in-wales-nurseries-childminding-and-playgroups/


**Darllen pellach:**


Datganiad Ysgrifenedig: Gweithredu system Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018 https://gov.wales/written-statement-implementation-additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-act-2018

Rhaglen drosglwyddo Anghenion Dysgu Ychwanegol: llinell amser https://gov.wales/additional-learning-needs-transformation-programme-timeline

Canllaw ar gefnogi dysgwyr bregus a dan anfantais: https://gov.wales/guidance-supporting-vulnerable-and-disadvantaged-learners

Anghenion Dysgu Ychwanegol (anghenion addysgol arbennig): https://gov.wales/additional-learning-needs-special-educational-needs

Rhaglen drosglwyddo Anghenion Dysgu Ychwanegol: cwestiynau cyffredin https://gov.wales/additional-learning-needs-transformation-programme-frequently-asked-questions

Rhaglen drosglwyddo Anghenion Dysgu Ychwanegol: cyflwyniad https://gov.wales/additional-learning-needs-transformation-programme-introduction

Ymgynghoriad cynrychiolwyr bobl ifanc a rhieni plant â diffyg gallu meddyliol https://gov.wales/representatives-young-people-and-parents-children-lacking-mental-capacity